Menter Iaith Sir Ddinbych

Yn Hyrwyddo'r Gymraeg yn Lleol
Promoting the Welsh Language Locally

Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Menter Iaith Sir Ddinbych. Nos Fercher, 3ydd Hydref 2012 yng Nghanolfan Neylor Leyland, Rhuthun

1.Presennol

Gill Stephen	Menter Iaith Sir Ddinbych
Iorwen Jones	Menter Iaith Sir Ddinbych
Gerallt Lyall	Menter Iaith Sir Ddinbych
Glain Roberts	Menter Iaith Sir Ddinbych
Lowri Edwards	Menter Iaith Sir Ddinbych
Gwydion Ifan	Menter Iaith Sir Ddinbych
Caryl Vaughan	Ysgrifenyddes
John Glyn Jones	Cyfarwyddwr
Nerys Davies	Cadeirydd
Cyng. Morfudd Jones	Cyfarwyddwr
Gwenan Owain	Coleg Llysfasi
Cerian Ellis	Coleg Llysfasi
Louise Humm	Cadwyn Clwyd
Gareth Williams	Athrawon Bro
Marian Jones	Urdd Gobaith Cymru
Ceri Davies	Unigolyn
Eifion Wynne	Unigolyn
Menai Edwards	TWF
Siwan Menai	Mudiad Meithrin
Christine Ryder	Dysgwyr
Cyng. Gaynor Morgan Rees	Dirprwy Maer Cyngor Tref Dinbych
Alwyn Jones Parry	Cyngor Cynwyd
Nan Edwards	Cynllun Rhuthun
Robert Owen-Ellis	Cyngor Tref Rhuthun
Ann Jones	Cyngor Sir Ddinbych
Sandra Williams	Cyfieithu
Emrys Wynne	Maer Cyngor Tref Rhuthun

<u>Ymddiheuriadau</u>

Rhys Roberts	FUW Rhuthun
Llyr Huws Gruffydd	Aelod Seneddol
Cyng. Meirick Lloyd Dav	Cefn Meiriadog

Eleri Roberts	Ffermwyr Ifanc
Carys Gwynn	Mudiad Meithrin
Chris Ruane	Aelod Seneddol
Owain Morris	Cyfarwyddwr
Dylan Jones	Cyfarwyddwr
Llinos Davies	Llyfrgell Rhuthun
Tony Schiarone	Cymdeithas yr Iaith
Sian Lloyd Parry	Cynllun Corwen
Ffion Clwyd Edwards	PI-AR
Cyng. Eryl Williams	Rhuthun
Sian Rogers	Urdd Gobaith Cymru
Medwen Roberts	Rhuthun
Anwen Williams	Merched y Wawr
Chris Ryder	

2. Croeso
Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan Nerys Davies cadeirydd y pwyllgor. Neb angen copi Saesneg o'r cofnodion nac offer cyfieithu.

3. Cyflwyniad ar waith y fenter gan Gill
Cafwyd cyflwyniad o weithgareddau llynedd gan Gill Stephen Prif Swyddog y Fenter.
Logo newydd y fenter- cyfnod newydd cyffrous yn gofyn am logo mwy ffres a lliwgar gyda chyfeiriad e bost newydd i'r Fenter i gyd fynd gyda'r logo.
bydd e bost diweddara yn un dal i weithio am dri mis.
Gill, Iorwen a Gerallt yn parhau yn eu swyddi, Osian wedi symud ymlaen ag hefyd gyda tri swyddog yn cael ei cyflogi o dan Twf Swyddi Cymru am 6 mis. .
Nod- codi ymwybyddiaeth teuluoedd a'r gymuned ehangach (y Gymraeg a'r di-gymraeg) o'r iaith a'u hannog i'w dysgu.
Stomp, Disgo Santes Dwynwen, Sioe Dinbych a Fflint, Clwb Clebran Ysgol Cyffylliog, Bws Ieuenctid, Eisteddfod Wrecsam, Prosiect Cymwel a.y.y.b
Symud Ymlaen- parhau â'r gwaith craidd
- prosiectau newydd
Eglurodd Gill ein bod newydd gael caniatâd i gyhoeddi'r newydd da am grant ar gyfer yr Amgueddfa Atgofion.
-Plant a phobl ifanc yn gallu cydweithio ar y cynllun
- Pobl ifanc yn derbyn atgofion
- Bydd yn gofnod manwl o atgofion oes a fu cyn i'r wybodaeth gael ei golli.
Traddodiad llafar a thafodieithoedd yn debyg o fynd ar goll am byth oni bai eu bod yn cael eu cofnodi rŵan.

Dywedodd Nerys ei fod yn brosiect diddorol a'i bod yn edrych ymlaen at gael gweld beth ddaw i law.

4. Cofnodion y cyfarfod diwethaf
Cadarnhawyd cofnodion y cyfarfod blynyddol llynedd.

5. Materion yn codi o'r cofnodion
Nid oedd unrhyw faterion yn codi

6. Adroddiad Blynyddol

7. Adroddiad Ariannol
Cyflwynwyd y Cyfrifon gan Richard Roberts o Hill a Roberts. Arweiniasom ni drwy'r adroddiad ariannol.
Uchafbwyntiau - cyfanswm arian i mewn, dim ond ychydig iawn yn llai na llynedd sy'n dda yn yr hinsawdd economaidd yma
Arian allan- costau craidd y Fenter
Gwariant £6,000 yn llai nac incwm sy'n beth da
Arian 3 mis wrth gefn tuag at gyflogau staff-
Ffigyrau'n debyg iawn i lynedd
Gorfod anfon cyfrifon i'r Comisiwn Elusennau a Thŷ Cwmnïau - dau set o gyfrifon gwahanol.
Derbyniwyd a mabwysiadwyd y cofnodion yn gywir

8. Y canlynol am barhau ar y pwyllgor rheoli:
Caryl Vaughan , Nerys Davies, Stan Lyall, Dylan Jones, Owain Morris, Morfudd Jones, Natalie Downes, John Glyn Jones.
Arwyn Jones wedi ymddiswyddo.

9. Dim gwrthwynebiad i newid cymal 39
Newid y rhif o 10 i 12 fel uchafswm

10. Enwebwyd Emrys Wynne ac Alwyn Jones Parry gan Morfudd ac eiliodd John Glyn Jones y cynnig

11. Ethol Swyddogion
Etholwyd y canlynol yn Swyddogion Menter Iaith Sir Ddinbych 2012-2013

Cadeirydd	Nerys Davies
Is- gadeirydd	John Glyn Jones
Ysgrifennydd	Caryl Vaughan
Trysorydd	Stan Lyall
Arolygwyr Anibynol	Hill & Roberts, Rhuthun

11. Siaradwr gwadd
Croesawyd Marc Lloyd Jones gan Nerys. Cawsom sgwrs ddiddorol iawn am brofiad Marc o'r system addysg o'i brofiad o. Fe aeth i'r ysgol gynradd yn y Rhewl lle'r oedd ei dad yn brifathro ac aeth ymlaen i Glan Clwyd efo'i ffrindiau. Ymlaen i Goleg Normal lle daeth i gysylltiad â thafodieithoedd gwahanol. Sylwi fel roedd y Gymraeg yn dod mor naturiol i rai yno yn gwneud iddo feddwl mwy am yr iaith.
Profiad dysgu mewn cymunedau cwbl Gymraeg eu hiaith cyn mynd i lawr i Ferthyr Tudful oedd â 99% o blant yn dod o gartrefi di-gymraeg, ond bod y rhieni yn gefnogol ac eisiau rhoi cyfle i'r plant ddysgu'r iaith.
Symudodd i gymuned glos yn y Rhondda - Ynys Wen, Treorci. Di-gymraeg ond ymdeimlad cryf iawn o'u Cymreictod a'r rhieni yn anhygoel o gefnogol gyda Chymraeg yn iaith y Buarth. Cafodd swydd fel dirprwy ar ysgol dwyffrwd yn Llanharan. Gwaith da yn cael ei wneud ond sefyllfa anodd tu hwynt 75%

yn y ffrwd Gymraeg ond y pennaeth yn ddi-gymraeg. Ysfa i ddod yn ôl i Rhuthun a chafodd swydd fel pennaeth yn Ysgol Gymraeg Croes Atti, Y Fflint. Cwestiynu weithiau beth oedd cymhelliad y rhieni ond roedd y plant yn arbennig iawn ond Saesneg oedd iaith y buarth. Targed oedd cael y plant i chwarae'n Gymraeg - cychwyn yn y meithrin. Gwobrwyo siarad Cymraeg ond ceryddu pan fo'r angen. Derbyniodd swydd fel Pennaeth Pen Barras, Rhuthun, ardal freintiedig a'r rhan fwyaf o blant yn dod o deuluoedd Cymraeg. Braf bod y plant wedi eu trwytho yn y "pethau". Peidio cymryd dim yn ganiataol a rhaid mynd yn ôl a dysgu'r 'basics'.
1. Marc - llinyn mesur os ydi'r plant yn siarad Cymraeg ar y buarth.
Ffactorau sy'n dylanwadu ar barodrwydd plant i ddefnyddio'r Gymraeg.
(a) Teulu
(b) Ysgol
(c) Ffrindiau a chyfoedion

Oes modd i ni ddylanwadu ar hyn?
Teulu - annog rhieni i ddysgu'r Gymraeg a chodi eu hymwybyddiaeth ohoni a hybu addysg mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg. Dileu'r term 'addysg ddwyieithog'.
Ysgol - Gwaith ardderchog ond angen mwy o adnoddau. Strategaeth addysg Gymraeg. Pam nad oes twf mewn galwad am addysg Gymraeg yn Sir Ddinbych?
Categori o ysgolion mewn siroedd - ydi hyn yn cymhlethu'r sefyllfa.
Ffrindiau a chyfoedion - Dylanwad ffrindiau yn gryf iawn ar blant. Ddim yn cŵl i siarad Cymraeg. Safon iaith? Deall y geiriau/ termau cywir- felly gobeithio y tyfa nhw allan o'r cam ddefnydd.

Ym marn Marc rhaid nid yn unig gwobrwyo a chanmol ond gorfodi plant i siarad Cymraeg yng ngŵydd oedolion. Angen annog pob plentyn i chwarae'n naturiol drwy gyfrwng y Gymraeg.

12. Diolchiadau

Diolchwyd i bawb am ddod ac am y daith ddifyr iawn aeth Marc a ni arni.
Diolch i ganolfan Naylor Leyland a Cwmni Tanzaro am y lluniaeth.
Diolch i'r cyfarwyddwyr a'r gwirfoddolwyr ac i Richard am wneud i'r gwaith cyfrifon edrych mor hawdd.
Diolch i Sandra Williams (cyfieithydd) ac anogodd pawb i fynd allan a pharhau a'r gwaith da